

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Teleffon: Botwnnog 730357

6ed Ebrill, 2022.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor **Nos Lun nesaf, 1 Ieg Ebrill, 2022** am 7.30 y.h. yng Nghanolfan Bryncroes.

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**
2. **YMDDIHEURIADAU**
3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
I dderbyn gwybodaeth.
4. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD**
14eg MAWRTH, 2022
Copi'n amgaeëdig. "A"
I drafod y materion yn codi o'r cofnodion.
5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
I ystyried y cais a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor.
Cais C22/0271/32/AC – diwygio'r amodau canlynol ar ganiatad cynllunio C14/1175/32/LL :
2 – diwygio edrychiadau a gosodiad mewnol; 2, 8 a 9 ymestyn cyfnod cyflwyno gwybodaeth;
ynghyd a dileu amod 4 yn ymwneud a gorffeniad allanol – Capel Bethel, Bryncroes.
6. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
(a) A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.
(b) Gwaharddiad trafndiaeth trwodd dros dro – o'r gyffordd ger Caerllo i fynedfa
Tre Wen, Botwnnog – 19eg Ebrill, 2022.
7. **CEISIADAU ARIANNOL**
(a) I ystyried y ceisiadau a ganlyn:
Amgueddfa Forwrol Llŷn
Cyfeillion Eglwys Llandegwning
Eisteddfod Gerddorol Ryngwaladol Llangollen 2022
Elusen Plant gyda Chancr (llythyr uniaith Saesneg)
O Ddrws i Ddrws
Ty Gobaith
Copi o'r ceisiadau yn amgaeedig. "B"
(b) E-bost yn cydnabod derbyn rhodd at Eisteddfod Genedlaethol 2023.
8. **AWDURDOD I DALU**
I awdurdodi'r taliad a ganlyn ac unrhyw daliad ddaw i law cyn dyddiad y Cyngor.
Yswiriant Zurich £791.09

Yn amgaeëdig mae copi o'r atodlen yn dangos y symiau a yswiriwyd – a fyddwch mor garedig a chael golwg drosto ac os oes angen diwygio unrhyw gymal a fyddai modd i chwi ddod a'r cyfryw i sylw'r Cyngor nos Lun. Diolch. "C"
Os yr hoffech gael golwg ar y ddogfen gyflawn sydd yn 106 o dudalennau rhwch i wybod i mi.

9. **ARCHWILIO'R CYFRIFON 2020/21**
Adroddiad y Clarc ar y sefyllfa ddiweddaraf.

Yn gywir,


Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR
Y CYNGHORWYR**

David Brunelli
Dylan Parry Jones
Carys E. Williams

Carys H. Evans
Ifor Owen
Glenys Williams

Elin Hughes
Glyn Roberts
Siôn Williams

Gwenan Griffith
Michael Strain